

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 154 Rhif 42 Hydref 21, 2021 50c.

## UNO'R BYD I ARBED ARGYFWNG TRYCHINEBUS

### Beth yw ystyr COP26?

'Conference of the Parties' yw ystyr COP, a fydd yn cwrdd am y chweched tro ar hugain ers arwyddo Fframwaith Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd, yn 1994. Gohiriwyd y gynhadledd y llynedd oherwydd Covid.

### Pam fod e mor bwysig?

Os na chaiff camau mwy radical eu cymryd i gyfyngu cynhesu byd eang i 1.5°C, fe allai'r tymheredd godi ymhell dros 3°C erbyn diwedd y ganrif. Byddai hynny'n drychinebus i fywyd ar y ddaear hon. Mae'n bosib mai COP26 fydd y cyfle olaf i rwystro hynny rhag digwydd. Bydd hwn yn achlysur eithriadol mewn cyfnod eithriadol, yn ôl y Alok Sharma AS, llywydd COP26. 'Rhaid inni ddod at ein gilydd i wneud iddo weithio. Does gennym ddim dewis ond cyflawni'r amcanion. Rhaid i bob gwlad gamu i'r adwy,' meddai. 'Fel llywydd COP26, byddaf yn sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed. Bod y cenhedloedd lleiaf yn eistedd wyneb yn wyneb â phwerau mawr y byd, fel partneriaid cyfartal yn y broses.'

### Beth yw pedwar nod COP26?

- Sicrhau net sero erbyn 2050 i gadw cynhesu byd-eang o dan 1.5°C
- Amddiffyn cymunedau a chynefinoedd naturiol rhag effeithiau newid hinsawdd
- Darparu o leiaf \$100bn. bob blwyddyn tuag at y gwaith o wireddu'r ddau nod cyntaf

- Troi uchelgais yn weithredu trwy gynyddu'r cydweithio rhwng llywodraethau, busnesau a chymdeithas

### Beth mae'r gwleidyddion yn dweud?

Digon llugoe'r fu ymateb gwledydd fel Brazil a China, ond mae Boris Johnson yn amlwg wedi cael ei berswadio. 'Bydd sicrhau dyfodol mwy disgrair i'n plant a chenedlaethau'r dyfodol yn gofyn i wledydd gymryd camau brys gartref a thramor i droi'r llanw ar newid hinsawdd,' meddai. 'Gydag uchelgais, dewrder a chydweithio wrth i ni nesáu at uwchghynhadledd hollbwysig COP26 fe allwn fanteisio ar y foment hon i ailadeiladu'n wyrddach ac adfer ein planed.'

### Ydy pethau'n newid?

Ydyn. Mae pob un o wledydd y G7, sef gwledydd mwyaf cyfoethog y byd, wedi gosod targed o fod yn net sero carbon erbyn 2050. Mae ynni o wynt a'r haul nawr yn rhatach nag ynni glo a nwy mewn 66% o wledydd y byd. Ond mae ffordd bell i fynd. Bydd y camau nesaf ar y ffordd honno'n dechrau yn Glasgow fis nesa. A bydd angen iddynt fod yn gamau mawr.



## Datgan-Nant

Mae Eglwys 'Werdd' Capel y Nant, Clydach, Abertawe, wedi cyhoeddi Datganiad fel rhan o'r ymgyrch



i sicrhau llwyddiant Cynhadledd Hinsawdd COP26 y Cenhedloedd Unedig sydd i'w chynnal yn Glasgow. Dywed y Datganiad:

'Gan nodi rhybudd gwyddonwyr y Cenhedloedd Unedig (chweched adroddiad yr IPCC, 9 Awst, 2021) bod Newid Hinsawdd yn peryglu dyfodol dynoliaeth, mae Pwyllgor Gwaith eglwys Capel y Nant, Clydach, Abertawe SA6 5HB yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol i geisio ymhob ffordd i sicrhau cytundeb cryf yng Nghynhadledd Hinsawdd COP26 yn Glasgow.

'Gyda'r nod o ffrwyno Cynhesu Byd-eang trwy dorri allyriadau carbon, credwn ei bod yn hanfodol bod Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol – fel llywydd y Gynhadledd – yn arwain cyn dechrau'r trafodaethau gan wrthod y ceisiadau cyfredol i agor maes olew newydd ym Môr y Gogledd a phwll glo newydd yng ngogledd Lloegr.'

Danfonwyd y datganiad at Boris Johnson ac Alok Sharma ynghyd â chynrychiolwyr gwleidyddol ardal Capel y Nant yn Senedd Cymru a Senedd San Steffan.

Mae rhai o aelodau Capel y Nant hefyd yn bwriadu cyfrannu'n lleol at y Dydd Gweithredu Byd-eang sydd i'w gynnal ar Sadwrn, Tachwedd 6, i bwysio am gytundeb cryf i ffrwyno Cynhesu Byd-eang yng Nghynhadledd COP26.

**Hywel Davies**

*Grŵp Cyhoeddusrwydd a Chyfathrebu*

## DATHLU DEUGAIN MLYNEDD ORDEINIO'R PARCH IWAN VAUGHAN EVANS

Pnawn Sul, 26 Medi, 2021, daeth cynulliad ynghyd i gapel Rhyd-y-main i ddathlu deugain mlynedd ordeinio'r Parch Iwan Vaughan Evans yn weinidog i Iesu Grist. Dechreuodd ei weinidogaeth yn eglwysi Brithdir; Rhyd-y-main; Tabor; Libanus, Ganllwyd a'r Ffrwd, Llanfachreth yn 1981 a threulio pedair blynedd hapus iawn yn y cylch cyn symud yn 1985 i'r Tabernacl, Ffairfach; Seilo, Pen-y-banc a Saron Llanarthne. Wedyn symud i Gapel Als, Llanelli rhwng 1996 a 2012. Yna Philadelffia, Nant-y-caws gan ychwanegu'r

*parhad ar y dudalen gefn*



*Yn y llun gwelir Iwan a Barbara Evans, Iola Horan Jones a Trebor Roberts*

# Y Golofn Ryngwladol

## Mae'r dyfodol yn cychwyn yma!

Caniatewch i mi ddisgrifio rhywbeth tra anghyffredin – ond eto digon cyffredin: pedwar o bobl yn eistedd o amgylch bwrdd, yn cynllunio'r addoliad ar gyfer y Sul ac yna'n cael pryd o fwyd gyda'i gilydd. Y syndod yw mai dyma'r tro cyntaf mewn dros flwyddyn i unrhyw un ohonon fentro i unrhyw dŷ heblaw ein tŷ ein hunain, neu dŷ perthynas agos i ni.

Wrth gwrs, fe wyddom oll am gyd-destun y sefyllfa hon, oherwydd yr ydym yn dal i fyw trwyddo, ac mae dim ond ychydig eiliadau o ystyried yn ein hatgoffa fod y rhain yn amseroedd anghyffredin. Bu amser pan yr oedd cwrrd â chyfeillion yn beth cwbl naturiol i'w wneud ond, dim ond ychydig fisoedd yn ôl, yr oedd yn beth eithriadol heriol i'w wneud. Oedd hi'n ddiogel i ni dynnu ein mygydau? A beth am ysgwyd llaw, neu gofleidio'n gilydd? (Ie, pam lai; o, na! NA!)

Yr oedd y sgwrs a gawsom o amgylch y bwrdd yn ymwneud â darparu llyf byw o'n haddoliad ar y we. Yr oeddem wedi ystyried y posibilrwydd hwn o'r blaen, ond erioed wedi meddwl y byddai'n dod yn fater o anghenraid, a hynny wythnos nesaf!

### Dim yn llwyr

Ar ben hynny, buom yn ceisio dychmygu sut y byddai addoliad a bywyd eglwysig yn edrych unwaith y byddai'r pandemig wedi dod i ben. Beth fyddai'n goroesi o'r cyfnod o weithio o adref a hunanynysu? Fe wyddom i gyd na all pethau fynd yn ôl yn union fel ag yr oeddent o'r blaen – nid yn llwyr felly. Yr ydym wedi bod trwy ormod, ac wedi dysgu gormod, i hynny fedru digwydd.

Mae hon, wrth gwrs, yn drafodaeth llawer ehangach na dim ond mewn un eglwys. Bu'r pandemig yn llythrennol yn ddigwyddiad byd-eang. Aeth dynoliaeth gyfan trwy ddigwyddiad sydd wedi newid ein cyfeiriad, ac ni ellir bellach gymryd fawr ddim yn ganiataol. Beth ydym wedi ei ddyysgu? Beth fyddwn ni am fynd gyda ni i ddyfodol y byd?



### O'r Pwys Mwyaf

Yr ydym yn awr yn holi am faterion o'r pwys mwyaf mewn bywyd mewn modd na fu i ni ei wneud erioed o'r blaen: cyfiawnder yng nghyd-destun hiliaeth; agweddau ar rywedd; newid hinsawdd; terfysgoedd gwleidyddol yn Myanmar, Afghanistan a manau tebyg; argyfyngau dyngarol wrth i blant bach farw oherwydd diffyg hygrychedd hirdymor at ddŵr glân, a marwolaethau pobl hŷn oherwydd prinder ocsigen, diffyg gofal neu absenoldeb brechlynnau i'w hachub pan ymosododd Covid.

Gwnaeth y llythyr agored a anfonodd Gareth Southgate (rheolwr tîm pêl droed cenedlaethol Lloegr) 'at Loegr' (y cyd-destun yr wyf fi'n awr yn ysgrifennu ohono) argraff fawr arnaf. Ynddo, galwodd y genedl i gyfrif am ei hagwedd at hiliaeth:

Yn anffodus [meddai] i'r rhai sy'n ymhél â'r math yma o ymddygiad, mae gen i newyddion drwg. Rydych ar yr ochr sy'n colli. Mae'n amlwg i mi ein bod yn symud i gyfeiriad cymdeithas lawer mwy goddefol a chydymdeimladol, ac rwy'n gwybod y bydd ein bechgyn ni yn rhan fawr o hynny ...


... bydd plant ifanc heddiw, wrth iddynt dyfu, yn methu deall yr hen agweddau a'r hen ffyrdd o feddwl.

Ac fe ddylem yn wir fod yn methu deall! Mae'r weledigaeth eisoes yn bodoli ym mhroffwydoliaethau Eiseia (61:1–2, 65:17–25), ac y mae Iesu'n cydio ynddynt (Luc 4:14–30, Mathew 25:31–46).

Ac yn yr eglwys yr oedd y cyfarfod cynllunio yr oeddwn yn ei ddisgrifio ar y dechrau yn cael ei gynnal, mae ein 'Addoliad Pob Oed' yn agor llygaid mewn ffyrdd newydd; i newyn ar draws y byd a gwaith Rhaglen Bwyd y Byd (World Food Programme); i ymwneud eglwys i'r Deyrnas Gyfunol â chynhadledd COP26. Mae'r drafodaeth wedi cychwyn yn ein grŵp WhatsApp newydd.

Mae'r dyfodol yn cychwyn yma – neu fe fydd, gyda hyn!

Janet Wootton



### Cyflwyniad i'r awdur

Daw'r cyfraniad i'n Colofn Ryngwladol y tro hwn o'r wlad 'drws nesaf' – o Loegr, ac mae'n diolch i'r Parchg Ddr Janet Wootton am ei herthygl yn fawr iawn.

Bu Janet yn weinidog eglwys Annibynnol Islington yn Llundain am nifer o flynyddoedd cyn cael ei phenodi'n Gyfarwyddwr Hyfforddiant y Gynghair Gynulleidfaol. Dan ei harweiniad bu cryn lewyrch ar y gwaith, gyda channoedd yn mynychu ei chyrtsiau i gael eu hyfforddi fel llygwyr a darpar-weinidogion.

Nid ei chenedl ei hun oedd unig ddi-ddordeb Janet. Bu'n amlwg iawn yng ngweithgareddau Cymdeithas Annibynwyr y Byd. Mae'n gyd-gadeirydd Comisiwn Diwinyddol y gymdeithas honno ac yn brif olygydd y cylchgrawn, yr *International Congregational Journal*.

Yn ysgolhaig cydnabyddedig, yn emynydd ac yn un y mae galw cyson arni i ysbrydoli cynulleidfaoedd trwy ei phregethu grymus, y mae bob amser yn bleser bod yn ei chwmmi. Ceir ganddi'r dwys a'r digrif, yr her, y sialens a'r anogaeth i ildio ein hunain i wasanaeth Duw, a hynny yn nerth a than arweiniad yr Ysbryd Glân.

Geraint Tudur

### EGLWYSI CYNULLEIDFAOL

SEION, ABERYSTWYTH A  
BETHEL, TAL-Y-BONT

CYNHELIR CYFARFOD  
ORDEINIO A SEFYDLU

MR GWILYM TUDUR,

BA (Aberystwyth), BA MPhil (Oxon.)

YN WEINIDOG I'R ARGLWYDD  
IESU GRIST

DDYDD SADWRN, 30 HYDREF,  
AM 2.00 P.M.

YN SEION, STRYD Y POPTY,  
ABERYSTWYTH

*Estynnir croeso cynnes i chwi ymuno  
â chyfeillion Seion a Bethel ar yr  
achlysur hwn.*

*Darperir lluniaeth yn Llety Parc,  
Llanbadarn wedi'r oedfa.*

*Oherwydd cyfyngiadau Covid-19  
bydd yn rhaid cofrestru eich bwriad i  
fynychu'r oedfa.*

*Gwerthfawrogi'r petaech yn gwneud hyn,  
rhwng 12–23 Hydref, trwy gysylltu â:*

Rhiannon Davies

E: Cemaes@btinternet.com

FF: 01970 615409



## Ailagor y drysau yng Nghanolfan Plant ac Ieuentid Coleg y Bala

Ar ôl blwyddyn a hanner rhyfedd iawn, rydym yn falch o ddweud bod Canolfan Coleg y Bala yn swyddogol ar agor. Rydym wedi cynnal ac adeiladu perthynas â'r bobl ifanc dros Zoom yn ystod yr amser heriol yma ac wedi bod yn cefnogi eglwysi ac ysgolion yn eu darpariaeth rithiol i blant a phobl ifanc.

Er hynny, does dim byd gwell na dod at ein gilydd wyneb yn wyneb i ailgysylltu, dal i fyny, darllen Gair Duw ac annog ein gilydd. Mae gennym nifer o gyrсияu wedi eu trefnu:

- Catch-up (15–17 Hydref) ar gyfer ieuentid hŷn;
- Clwb Hydref (26–7 Hydref) i blant oed cynradd;
- Cwrs Ieuentid ar gyfer rhai oedran ysgol uwchradd (29–31 Hydref).

Os hoffech ymuno â ni, cysylltwch â Choleg y Bala neu os hoffech ddod â chriw o'ch eglwys yma am benwythnos, bydd croeso cynnes yn eich aros. Cofiwch gysylltu i weld beth allwn ni ei drefnu.

Siân ac Owain Edwards – Cyd-reolwyr,  
Canolfan Hyfforddi Coleg y Bala,  
Y Bala, Gwynedd, LL237YB  
[Colegybala@ebcpcw.cymru](mailto:Colegybala@ebcpcw.cymru)



## Iesu yw'r Goleuni? Adnodd newydd ar gyfer tymor Calan Gaeaf

Dyma lyfr lliwgar newydd i'w gyflwyno i blant fel rhodd yn nhymor Calan Gaeaf. Mae *Iesu yw'r Goleuni?* yn ymateb, drwy gyfrwng barddoniaeth, i ddisgrifiad Iesu ohono'i hun fel Goleuni'r Byd yn Efengyl Ioan.

Addaswyd y gerdd i'r Gymraeg gan Delyth Wyn Davies, ac mae'r llyfrynau lliwgar ar

gael am £10 am becyn o 10. Mae'r llyfrynau hyn yn ffordd ddelfrydol o rannu goleuni Iesu â'r plant yn eich cymuned, yn enwedig adeg Calan Gaeaf, sy'n gysylltiedig â'r tywyllwch. Byddai'n wych eu defnyddio mewn Parti Goleuni, ochr yn ochr â phegyn adnoddau sydd i'w weld ar wefan [www.scriptureunion.org.uk](http://www.scriptureunion.org.uk)

# Rhifyn Hydref 2021

## o'r Traethodydd

Mae rhifyn diweddaraf *Y Traethodydd*, sef rhifyn Hydref 2021, bellach wedi cyrraedd y siopau llyfrau, ond gorau i gyd os ydych wedi archebu'ch copi drwy danysgrifiad. Beth bynnag fo dull y prynu, chewch chi mo'ch siomi gan fod yr arlwy'n gyfoethog a'r cynnwys yn amrywiol.


Mewn ysgrif olau a chynhwysfawr, mae Gruffydd Aled Williams yn dathlu un o drysorau cynhyssaeth grefyddol a diwylliannol y genedl, sef Salmau Cân Edmwnd Prys, a hynny bedwar can mlynedd ar ôl eu cyhoeddi gyntaf. Mae'n darlunio'u cefndir yn awydd arweinwyr yr Eglwys Sefydledig i hybu'r ffydd Brotestannaidd, ac yn unol ag egwyddor cael y Beibl yn iaith y bobl, i wneud hynny yn Gymraeg. Sonia am fagwraeth Prys yn Nyffryn Conwy, ei addysg yng Ngholeg Ieuan Sant, Caergrawnt, lle roedd yn gyfoeswr â'r Esgob William Morgan, ac am yr egwyddorion dyneiddiol Gristionogol a oedd yn sbarduno cenhadaeth y ddau ohonynt. Os hoffech wybod mwy am yr hanes, am y cyfieithiadau cynharaf o'r Salmau, am egwyddorion cyfieithu, trosi a mydryddu Prys ac effaith y Salmau Cân ar Gristnogaeth Cymru ar hyd y canrifoedd, darllenwch yr ysgrif gampus, graff-ddadansoddol hon.

Dadansoddi craff a golau sy'n nodweddu ysgrif arall o natur lenyddol, sef ymdriniaeth Robert Rhys â gwaith y llenor o Ryd-ddu: "Cymorth hawdd ei gael": Cyfeiriadaeth a Rhyngdestunoldeb yng ngwaith T. H. Parry-Williams'. Er inni symud yn yr ysgrif hon o'r ail ganrif ar bymtheg i'r ugeinfed ganrif, ac o argyhoeddiad ffydd at sgeptigiaeth fodern, mae'n syndod gweld pa mor ganolog i weledigaeth y llenor hwn oedd Cymraeg seinber Edmwnd Prys a chyfeiriadaeth gyfoethog Beibl William Morgan. Dyma ysgrif wirioneddol afaelgar, sy'n ein hatgoffa (a bod angen ein hatgoffa) am gyfoeth llên yr ugeinfed ganrif, boed mewn barddoniaeth neu ryddiaith greadigol.

I fyd annisgwyl crefyddau'r Dwyrain yr aiff Llion Wigley yn gyntaf o ddwy ysgrif o dan y teitl: '*Karma* Cymraeg: Bwdhaeth, Hindwâeth a'r Cymry, c. 1920–80'. Gan ddyfynnu o weithiau llenorion o'r blynyddoedd rhwng y ddau Ryfel Byd hyd at dri chwarter olaf yr 20fed ganrif – D. Miall Edwards, T. Glyn Thomas a Cyril G. Williams o blith y diwinyddion, Kate Bosse-Griffiths, Waldo Williams ac eraill o blith y llenorion – gwelwn fel y cyfareddwyd y Cymry gan ffigurau blaenllaw fel Rabindranath Tagore a Mahatma Gandhi, ac fel y bu i'w syniadaeth gyfrannu at ddelfrydau di-drais y mudiad cenedlaethol. Dyma draethiad hynod ddiddorol, a bydd disgwyl mawr am ail ran yr ymdriniaeth a fydd yn ymddangos yn rhifyn Ionawr 2022.

Hydref2021

# Y Traethodydd



**Dathlu Campwaith Edmwnd Prys, 1621–2021**

John Emyr sy'n cynrychioli'r beirdd yn y rhifyn hwn gyda thair cerdd o'i eiddo, a phleser yw cynnwys adolygiad Rob Phillips o gyfrol swmpus a lliwgar D. Ben Rees ar Jim Griffiths, Cymro twymgalon o wleidydd Llafur ac Ysgrifennydd Gwladol cyntaf Cymru, ynghyd â gwerthfawrogiad Elwyn Richards o'r gyfrol deyrnged i'w gyd-addysgydd gweinidogaethol, y diweddar Euros Wyn Jones.

Dyma rifyn cyfoethog arall o gylchgrawn hynaf Cymru a 'Chylchgrawn y Diwylliant Cymraeg'. Wedi'i argraffu gan Wasg Gomer, Llandysul, gellir ei archebu ar lein trwy gyfrwng y wefan [www.ytraethodydd.cymru](http://www.ytraethodydd.cymru). Dilynwch ni hefyd ar Drydar ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Denis Morgan ([d.d.morgan@pcdds.ac.uk](mailto:d.d.morgan@pcdds.ac.uk)), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch ag Alice Williams ([alice@ebcpcw.cymru](mailto:alice@ebcpcw.cymru)), Swyddfa Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

S4C

Sul, 24 Hydref, am 8.00yh

Dathlu'r 60 – mewn rhaglen arbennig, bydd Nia ar daith yn hel atgofion ac yn codi gwên yng nghwmni wynebau cyfarwydd ar drywydd chwe degawd o straeon ac atgofion.

Mae copi o gylchlythyr mis Hydref i'w gael o ddilyn y ddolen hon:

<https://spark.adobe.com/page/enhrXJs3QFjsa/>

BBC radio cymru

Sul, 24 Hydref – *Caniadaeth y Cysegr*, 7:30yb a 4:30yp

Elen Ifan yn cyflwyno detholiad o emynau o gymanfaoedd Sir Conwy dros y blynyddoedd

Sul, 24 Hydref – *Oedfa Radio Cymru*, 12:00yp

Gwasanaeth dan ofal y Parch Andras Iago, Dinbych



## Yr Ysbryd Glân a'r Eglwys

Fel ysgogiad i feddwl am natur ein heglwys yn y cyfnod hwn o gynnull eto ac ailadeiladu, rhoddir yma'r penodau hynny o lyfr R Tudur Jones, *Yr Ysbryd Glân* (1972), sy'n sôn am waith yr Ysbryd yn yr Eglwys. Bydd chwech ohonynt yn y gyfres.

### Rhif 6 – Undeb yr Ysbryd

Yr Ysbryd Glân sy'n sicrhau undeb yr Eglwys. Ffordd arall yw hyn o ddweud mai cynnyrch gweithgarwch achubol Duw ydyw.

Trown i ddechrau at weddi'r Arglwydd Iesu yn Ioan 17. Mae'r Arglwydd yn ei gyflwyno i hun yn aberth dros bechodau'r byd. Yn yr aberth hwn gogoneddir y Mab, fel y mae'r Mab eisoes wedi gogoneddu'r Tad. Gorffennwyd y gwaith. Galwyd cwmni o ddynion allan o'r byd a dysgwyd y gwirionedd iddynt. Mwy na hynny, y mae'r dynion wedi credu yn Iesu Grist. Eisoes, felly, y maent wedi'u huno yn y gwirionedd ac wedi'u huno hefyd yn eu neilltuaeth oddi wrth y byd. Hyd yma gwarchodwyd hwy gan Iesu Grist ei hun. Ond yn awr y mae Ef yn eu gadael ac mae'n eiriol at y Tad drostynt. "Ac er eu mwyn hwy yr wyf yn fy sancteiddio fy hun" (adn 19). Ac ystyr sancteiddio yma yw "neilltuo i'w aberthu i Dduw". Gyda'r geiriau hyn y mae Iesu Grist yn offrymu ei einioes dros bechodau'r byd. Nid rhoi ei hun fel esiampl o hunanaberth ond cynnig ei fywyd glân yn aberth. Ac o'r aberth hwn y tardd eu sancteiddrwydd hwy – "fel y byddont hwythau wedi eu sancteiddio mewn gwirionedd" (nid "yn y gwirionedd"). Maent yn awr ar fin cael eu huno yn y sancteiddrwydd sy'n tarddu o aberth Crist.

Y mae'r Iesu'n awr yn ehangu ei eiriolaeth i gofleidio'r sawl a fydd yn credu'r Efengyl a bregethir gan y disgyblion: "Fel y byddont": "Fel y byddont oll yn un: megis yr wyt ti, y Tad ynof fi, a minnau ynot ti: fel y byddont hwythau ynom ni: fel y credo y byd mai tydi a'm hanfonodd i" (adn 21). Ac fel y gwelsom eisoes, dyma'n union yr uno sy'n digwydd dan eneniad yr Ysbryd Glân. Bydd y Gair yn cael ei bregethu, dynion yn cael hatgenhedlu, eu galw, eu cyfiawnhau, eu sancteiddio. Mewn gair, bydd dynion yn cael eu huno â Christ. Trwy'r Ysbryd Glân, y mae Crist ynddynt hwy a hwythau yng Nghrist. Ac felly trwy'r Efengyl a dylanwadau'r Ysbryd Glân dygir dynion i'r undeb dwyfol sy'n canoli ar Iesu Grist – "Myfi ynddynt hwy a thithau ynof fi" (adn 23).

Felly, y mae Iesu yn y weddi hon yn cyfeirio at saith rhwymyn yr uno. Mae'r disgyblion yn eu cred yn Iesu; yn un yn eu hymneilltuaeth o'r byd; yn un fel gwrthrychau'r Aberth mawr; yn un mewn sancteiddrwydd; yn un yng ngair y gwirionedd; yn un yng Nghrist ac yn un mewn cenhadaeth. Dyma'r undod gwaelodol na all dyn fod yn Gristion heb fod ynddo.

Pan drown i Effesiaid 4 gwelwn yr undeb hwn mewn goleuni dipyn yn wahanol. Mae dilynwyd Iesu'n un "corff". Ond nid un "gorfforaeth", neu un "sefydliad" a olygir. Yn gyntaf, y mae Cristnogion dan lywodraeth Crist, yr Hwn a roddwyd "yn ben uwch law pob peth i'r eglwys. Yr hon yw ei gorff ef" (Effesiaid 1:22-3). Ac un Ysbryd sydd ganddynt oll – yr Ysbryd sy'n galw dynion at Grist: "Megis y'ch galwyd oll yn un gobaith eich galwedigaeth" (adn 4). Mae'n dilyn wedyn mai "un Arglwydd" sydd. Yna daw "un ffydd" ac "un bedydd". A chrynoir yr undeb llawn hwn yn Nuw – "Un Duw, a Thad oll, yr hwn sydd goruwch oll, a thrwy oll, ac ynoch oll." Dyma undeb seithblyg eto: un corff, un Ysbryd, un alwad, un Arglwydd, un ffydd, un bedydd, un Duw. Ac yma, fel yng ngweddi Iesu Grist yn Ioan 17, yn Nuw a'i weithgaredd y mae cyfrinach yr undeb.

Yn 1 Corinthiaid 12:3-27, canolir y sylw ar gynulleidfa unigol. Ond y mae'r un peth yn wir am hon ag am yr eglwys gyfan yn Effesiaid 4. Ysbryd Duw sy'n sicrhau'r undeb ac ar yr un pryd yn creu amrywiaeth. Cymhwysir delwedd y "corff" yn awr at y gynulleidfa. Y mae mewn cynulleidfa amryw ddoniau, yn union fel y mae amryw aelodau mewn corff. Ond trwy "un Ysbryd y bedyddiwyd ni oll yn un corff" (adn 13). Ac wrth ddarparu o ddoniau, sicrhodd yr Ysbryd Glân ddibyniaeth pawb ar ei gilydd. O ganlyniad y pennafloll o'r holl ddoniau yw cariad (1 Corinthiaid 13). Yn y gymdeithas gydweithredol a gwasanaethgar hon, mae lle i Iddewon a Groegwyr, caethweision a dinasyddion rhydd. Mae i bawb, diolch i'r Ysbryd Glân, ei briod wasanaeth a'i briod anrhydedd. Daw'n eglur iawn wrth astudio'r darn hwn nad yw undod Eglwys Iesu Grist ddim yn golygu unfurfiaeth. Yn wir, o graffu ar y gwahanol eglwys y sonnir amdanant yn y Testament Newydd, gwelir eu bod yn gyforiog o amrywiaeth a'r amrywiaeth wedi'i phatrymu'n hyfryd yn undod yr Ysbryd.

Dengys hyn pa mor hanfodol yw undeb Cristnogion â'i gilydd ac â Christ. Ar yr un pryd dengys gymaint o'r siarad a'r ysgrifennu cyfoes am undeb eglwysig sy'n anwybyddu tystiolaeth amlwg yr Ysgrythur am natur yr undeb hwn. I'r graddau y mae gweithgareddau eciwmenaidd yn ymeginio i adeiladu corfforaeth unedig, ganolog, unfurf, y maent yn ceisio creu anghenfil nad oes rithyn o gyfiawnhad drosto ar dudalennau'r Testament Newydd. Ac i'r graddau y mae arweinwyr Cristnogol yn

ceisio cyrraedd y nod hwn trwy wleidyddia cyfrwys a chynlluniau cymrodeddus, maent yn gorseddu clyfrwch dyn yn lle anrhydedd Duw a gwirionedd yr Efengyl. Undod yng Nghrist trwy'r Ysbryd Glân, undod o greadigaeth Duw trwy wirionedd ei Air, yw'r undod a ddarlunnir inni gan yr Arglwydd Iesu a'i apostolion.

Ar y llaw arall, mae'n gwbl amlwg na fwrriadodd yr Arglwydd Iesu i'w bobl fod wedi'u rhannu'n gorfforaethau enwadol yn byw mewn cynnen â'i gilydd. Nid oes sôn am enwadau chwaith ar dudalennau'r Testament Newydd – nid hyd yn oed un enwad mawr. Gan hynny, yn y mater hwn, yn anad yr un mater yn y blynyddoedd hyn, y mae angen i Gristnogion o bob rhyw ddisgwyl yn eiddgar ac yn ostyngedig wrth yr Ysbryd sy'n tywys i bob gwirionedd.

Darlleniadau:

Ioan 17; 1 Corinthiaid 12:3-27; Effesiaid 4:1-16.

Llyfrau:

Mae'r fath doreth o lyfrau, pamffledi, erthyglau a datganiadau'n trafod undod yr Eglwys fel na ellir gwneud mwy nag awgrymu sut orau i ddechrau astudio'r maes. Am hanes y mudiad eciwmenaidd, efallai mai llyfr Norman Goodall, *The Ecumenical Movement* (1961), yw'r hwylusaf. I'r Cymro mae diddordeb o hyd yn syniadau'r gorffennol ar y pwnc, fel Henry Rees, *Pregethau III*, pregeth v, a'r anerchiad, "Undeb Crefyddol"; John Jones (Talsarn), *Pregethau* (1869), "Undeb a Christ", 533-41; Thomas Rees, *Cenadwri'r Eglwys a Phroblemau'r Dydd*, 232-45. Am lyfrau cyfoes gw. (gol.) A. Ff. Williams, *Ffyrdd a Ffydd* (1945); Esgob Bangor, *Gwaith yr Eglwys* (1959), 42-51; *Paratoi'r Ffordd* (1960); T. Lloyd Evans, *Pris ein Rhyddid* (1962), pen 7.

Am drafodaethau o wahanol safbwyntiau, T. F. Torrance, *Theology in Reconstruction* (1965), pen. 11 a 13; Brunner, *The Misunderstanding of the Church* (1952); E. L. Mascall, *Christ, the Christian and the Church* (1946) – o safbwynt "Ucheleglwysig"; P. T. Forsyth, *The Church and the Sacraments* (dros Ffederaliaeth), 1917; Hans Kung, *The Council and Reunion* (safbwynt un Pabydd); J. A. O'Brien (gol.), *The Steps to Christian Unity* (Fontana – crynodeb o'r holl safbwyntiau). Am y safbwynt "efengylaidd" gw. J. M. Kik, *Ecumenism and the Evangelical* (1958); David Hedegard, *Ecumenism and the Bible* (1964); Alan Cole, *The Body of Christ* (1964). Am hanes eciwmeniaeth Brotestannaidd, gw. J. T. McNeill, *Unitive Protestantism* (1964).

Am Ioan 17, gw. E. Hoskyns, *The Fourth Gospel, II* (1950).

## Dal ymlaen

Bûm yn ddiweddar yn ceisio sefydlu ysgol efengylu. Daeth cynnig gan eglwys yn Birmingham, i chwech ohonom, sef tri gŵr a thair merch gan gynnwys fi, i gynnal ymgyrch efengylu ar ôl cyfnod hyfforddiant o bythefnos.

Roeddem wedi cael caniatâd i ddefnyddio'r *band-stand* yn sgwâr farchnad Maesteg, Morgannwg Ganol, cyn i'r cloi mawr ddod. O ganlyniad bu rhaid gohirio, ond roedd yn werth y disgwyl oherwydd pan ddaethant roeddynt wedi dod â gitâr ac offer cerddorol. Y drefn oedd bod dau ar y llwyfan yn canu neu yn canu offeryn. Yna, roedd eraill yma ac acw yn rhannu gair o dystiolaeth neu bregeth fach i bobl oedd yn fodlon gwranddo. Roedd y gweddill yn cerdded o gwmpas yn siarad gyda phobl ac yn dosbarthu tractiau dwyieithog. (Pysgota dynion oedd Byddin yr Iachawdwriaeth yn ei

ddweud.) Roedd y rhan fwyaf o'r bobl yr oeddem yn siarad â hwy yn ddi-gapel. Roedd un neu ddau o bobl oedd yn gwranddo yn gaeth i alcohol a chyffuriau. Roedd un ohonynt hwy yn arbennig yn chwilio am ryddid. Aeth un o'n pobl ato er mwyn sgwrsio gydag ef gan sôn am yr Iesu'r un allai eu rhyddhau i fywyd newydd.

### Cwyn

Cwynodd un person oedd yn cadw siop yn y farchnad oherwydd bod yno feddwon a pherson oedd yn gaeth i gyffuriau. Dywedodd y cwynwr, 'Tydan ni ddim eisio'r math yna o bobl yma.' Chwilio am bechaduriaid oedd y bwriad yma.

### Cyfarfod drannoeth

Aethom i Bort Talbot wedyn a gwneud heb y *band-stand* ac yno fe gawsom le ardderchog i dystio. Yno roedd mwy o lawer o feddwon, yn cynnwys merched a dynion, ac yn rhyfedd roeddynt yn awyddus i ganu'r emynau. Gofynnodd un neu ddau am gael canu drwy ein microffon. Dyna ryw awgrym fod ganddynt ychydig o gefndir.



### Fy mwriad

Er mwyn cael canu'r emynau yn ddwyieithog, defnyddiwyd *Odlau'r Diwygiad* sef cyfieithiad o emynau Alexander gan John Nicholas, Glasfryn a ddefnyddiwyd yn ystod Diwygiad 1904/05. Yn sgil y profiad hwn dyma rywbeth i chi feddwl amdano. Beth am gael cyfeillion o Birmingham i genhadu yn ein gwlad ni, yn hytrach nac i ni fod yn gwneud ein hunain? Rwyf yn dal i weddio y bydd ein pobl ni yng Nghymru yn gwneud gwaith fel hyn. Hwyrach y dylem ni gael ysgol genhadu, sy'n symud o ardal i ardal. Heddiw mae'n rhaid 'Arloesi' i gyrraedd pobl Cymru.

Parchedig Wena Parry BA

### Coleg yr Annibynwyr Cymraeg

## Cyrsiau'r Hydref

Defnyddio'r dechnoleg fodern yn ein haddoliad

Gweinidogaethau ym mywyd yr eglwys

7 o'r gloch, nos Fawrth 26 Hydref -  
Sacrament Bedydd

7 o'r gloch, nos Fawrth 2 Tachwedd -  
Sacrament Swper yr Arglwydd

7 o'r gloch, nos Fawrth 9 Tachwedd -  
Gweinidogaeth Galar a Chynnal Angladdau  
ALED JONES, Cyfarwyddwr a Chydllynydd  
Hyfforddi'r Coleg

Darllen, deall a dehongli Gair Duw heddiw  
Astudio'r Beibl yn ein cyd-destun ni

7 o'r gloch, nos Lun 8 Tachwedd -  
Yr Her Amgylcheddol

HEFIN JONES, Ysgol y Biowyddorau,  
Prifysgol Caerdydd

7 o'r gloch, nos Lun 15 Tachwedd -  
Testament Newydd y Beibl

CATRIN HAF WILLIAMS, Diwinyddiaeth ac  
Astudiaethau Crefyddol, PCYDDES

7 o'r gloch, nos Lun 22 Tachwedd -  
Y Beibl Hebraeg

JOHN OWAIN AB IFOR JONES, Eglwys Unedig  
Bute, Eglwys yr Alban

Croeso cynnes iawn i bawb

Bydd pob cwrs ar-lein eleni

Manylion pellach a doleenni Zoom oddi wrth  
aled@colegyrannibynwyr.cymru

## Llofnodion


Pan neilltuwyd tad Menna Lloyd Williams yn flaenor yn eglwys Rhoscolyn, Môn, ym 1958, rhoddwyd Beibl iddo wedi ei arwyddo gan dri pherson. Gwelir y llofnodion hyn yn y llun. Dyma beth o hanes y tri llofnodydd.

**WILLIAM MORRIS** (1889–1979).

Llywydd y Gymdeithasfa. William Morris Bryn-du i ni Fonwysion! Enillodd Gadair Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Castell-nedd yn 1934 gyda'r awdl 'Ogof Arthur' a bu'n Archdderwydd o 1957 hyd 1959. Roedd yn gyfaill i Hedd Wyn ac mae'n ymddangos fel cymeriad yn y ffilm Gymraeg a enwebwyd am Oscar ym 1994.

**R. GWILYM HUGHES** (1900–97). Llywydd yr Henaduriaeth. Bu'n weinidog yng Ngellilydan a Maentwrog Uchaf; Dwyran, Ynys Môn; Hyfrydle, Caerdybi; Bethesda, yr Wyddgrug, a Phenmount, Pwllheli hyd ei ymddeoliad ym 1981. Roedd ei ferch, Carys Hughes (1949–2004) yn organyddes broffesiynol. Ymddangosodd fwy na deg ar hugain o weithiau wrth organ Willis yn yr Albert Hall a chwaraeodd ym mhriodas, y pencampwr snwcer, Stephen Hendry ym 1995. Astudiodd yn y Royal Academy of Music, Llundain ac yna ym Mharis.

**HUW WALTER JONES**. Ysgrifennydd yr Henaduriaeth. Tad y diweddar John Walter Jones (1946–2020).





# Barn Annibynnol

## COFIO MERCHED DU

### Betty Campbell

Gwrthododd Betty Campbell dderbyn ei bod hi'n berson eilradd. Pan soniodd yn ferch fach yn yr ysgol yr hoffai fod yn athrawes ryw ddiwrnod, dywedwyd

wrthi am anghofio'r syniad, fyddai hi fyth yn cyrraedd. 'Peidio anelu'n rhy uchel sydd orau i rywun o'th gefndir di,' oedd y cyngor a gafodd.

Ond roedd yn berson o gymeriad cryf, ac yn benderfynol. Yn wyneb pob math o anawsterau, llwyddodd nid yn unig i fod yn athrawes, ond i fod y brifathrawes ddu gyntaf yng Nghymru. Bernir iddi fod yn arbennig o effeithiol yn y gwaith gan roi'r cyfle gorau posib i'w disgyblion aml-hil yn Nhrebiwt. Gwnâi'n siŵr fod y plant yn cael dysgu am gyfraniad gwerthfawr pobl liw yng



Llun o Wikipedia

Nghaerdydd, ac yn y byd hefyd. Roedd hi'n un o'r rhai a aeth ati i sefydlu Mis Hanes Pobl Dduon, dyma ni ynghanol mis hwnnw ar hyn o bryd. Mae ei ddathlu yn bwysig.

#### Amrywiaeth

Dathlu amrywiaeth oedd ei gweledigaeth, mwynhau'r gwahanol a'i barchu. A'r amrywiadau yn plethu yn glytwaith cyfan, lliwgar. Soniai hithau, fel Desmond Tutu, am 'bobl yr enfys'. Pa hil bynnag, pa iaith bynnag, pa grefydd bynnag, mae pobl yn haeddu cael eu parchu. Dro yn ôl, roedd bwriad i godi cerflun o ferch Gymreig oedd wedi gwneud y cyfraniad mwyaf. Roedd pump ar y rhestr fer, a'r pump yn haeddu cofeb anrhydeddus, ond drwy bleidlais boblogaidd, Betty Campbell a ddewiswyd i fod y gyntaf. Bellach mae cerflun hardd ohoni yng Nghaerdydd. Dyma'r cerflun cyhoeddus cyntaf yng Nghymru o wraig. Ac mae hi'n wraig ddu. Gwych!

Cyflawnodd gymaint, ac mae'n dal i ysbrydoli.

#### Rebecca Hall

Ychydig fisoedd yn ôl cyhoeddwyd *Wake* gan Rebecca Hall. Merch ddu o America yw hi, cyfreithiwr. Bu'n ymchwilio'n fanwl ac yn hir i hanes y caethion o ferched fu yn gwrthryfela. Roedd yn hanes cudd, a bu'n rhaid palu'n ddwfn a defnyddio peth dychymyg i adrodd yr hanes. Roedd sefydliadau a busnesau yn amharod iawn i ganiatáu i'w ffeiliau gael eu harchwilio, oherwydd yr embaras am eu rhan mewn caethwasiaeth. Chafodd hi ddim caniatâd i weld papurau fyddai wedi ei helpu i ddweud y stori oedd yn archifau'r yswirwyr mawr Lloyds o Lundain, er enghraifft.

Darluniwyd y stori'n gelfydd ac effeithiol gan Hugo Martinez. Rhwng y lluniau a'r ysgrifennu mae'n gyfrol drawiadol iawn. Synnais i ddim i weld adolygydd yn rhoi pum seren iddi. Does dim modd cael ffigurau pendant, ond yn ôl un amcangyfrif ceidwadol cludwyd deg miliwn o Affricaniaid i'r Americas dros gyfnod o 400 mlynedd, a bu cymaint â hynny farw ar y ffordd. Croeswyd yr Iwerydd o Affrica fwy na 36,000 o weithiau.

Yn ôl ymchwil Rebecca Hall bu gwrthryfel ar fwrdd tua un o bob deg o'r llongau oedd yn eu cludo. A'r rheini bron yn ddieithriaid yn cael eu harwain gan ferched. Gwesgid y dynion i grombil y llong, wedi eu cadwyno wrth ei gilydd. Câr'r merched eu cadw ar y dec, lle gallai'r criw fanteisio arnynt Yno hefyd y cedwid y drylliau, ac weithiau llwyddai'r merched i gael gafael arnynt. Doedd dim tosturi ac roedd unrhyw wrthryfela'n golygu marwolaeth fel cosb yn ddi-os. Roedd yn cyflawni hunanladdiad. Mae darllen am wrhydry merched o flaen eu gwell (!) yn y llysoedd am feiddio herio'r drefn yn ddarllen ingol.

Roedd pob plentyn a gâi ei eni, yn eiddo i'w feistr yn ôl y gyfraith, a gallai hwnnw ei werthu yn ôl ei fympwy, fel unrhyw eiddo arall. Ysgrifennodd Rebecca Hall yr hanes yn deyrnged i'w hen nain, Harriet, un a fu'n gaethferch, ond a fynodd ddal ei phen yn uchel. Rhaid dyfynnu, 'Dwn i ddim sut y goroesodd ein pobl, ond fe wnaethon, ac weithiau, ffynnu hyd yn oed.' Dysgw'n ninnau fod pobl dduon yn cyfri.

**Dewi M. Hughes**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynnwr na'r tîm golygyddol.)



**MIS HANES  
POBL  
DDUON**  
WALES/CYMRU

## Ar y dydd hwn: Hydref

### 2 Hydref

Bu farw William Rhys Nicholas, 1914–96, gweinidog (A), emynydd a bardd ym Mhorthcawl.

### 3 Hydref

1226 bu farw Ffransys o Asisi.

### 4 Hydref

1669 bu farw Rembrandt Harmenszoon van Rijn, yr arlunydd.

### 5 Hydref

1814 bu farw Thomas Charles o'r Bala.

Claddwyd ei weddillion ym mynwent Llanycil. Y mae cerflun



Thomas Charles

ohono y tu allan i Gapel Tegid, y Bala.

1965 bu farw Gwilym Bowyer, Prifathro Coleg Bala-Bangor.

### 6 Hydref

1536 merthyrwyd William Tyndale c.1494–1536, cyfieithydd y Beibl i Saesneg. 'Without Tyndale, no Shakespeare.'

### 8 Hydref

451 dechreuodd Cyngor Chalcedon yn Asia Leiaf.

### 9 Hydref

Bu farw Edward Tegla Davies, 1880–1967, gweinidog (EF), llenor a heddychwyr, a chladdwyd ef ym mynwent y Gelli, Tregarth, Bangor.

### 11 Hydref

1531 lladdwyd Huldrych Zwingli, diwygiwr Protestannaidd dinas Zurich, ym mrwydr Kappel.

Ganed Humphrey Rowland Jones, 1832–95, gweinidog (W) a diwygiwr yn Gwarcwm Bach, Llancynfelyn.

### 12 Hydref

1871 sefydlwyd Undeb yr Annibynnwr yng nghapel Ebeneser, Abertawe.

Ganed Thomas Levi, 1825–1916, gweinidog (MC), awdur, emynydd, golygydd a dirwestwr, ym Mhenrhos nid nepell o Ystradgynlais.

### 13 Hydref

Ganwyd John Richard Jones, Ramoth, 1765–1822, Gweinidog (B) a sylfaenydd y Bedyddwyr Albanaidd yng Nghymru, yn y Bryn Melyn, Llanuwchllyn, Meirionnydd.

Bu farw Elizabeth Fry 1780–1845, *Diwygiwr cymdeithasol* yn Ramsgate ac fe'i claddwyd ym mynwent y Crynwyr, Barking.

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*

Y Parchg Ddr Alun Tudur  
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,  
Caerdydd, CF23 9BS  
Ffôn: 02920 490582  
E-bost: aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones  
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,  
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,  
LL49 9UE  
Ffôn: 01766 513138  
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny  
Porth Angel, 26 Teras Picton  
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX  
Ffôn: 01267 232577 /  
0781 751 9039  
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc  
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe  
ABERTAWE SA7 0AJ  
Ffôn: 01792 795888  
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*

Cyhoeddir y Pedair Tudalen  
Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r  
Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr  
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a  
wneio Golygyddion Y Tyst ddim â  
chynnwys y Pedair Tudalen.

## HINSAWDD AELWYD — CYNAEFAU GWAHANOL

Byddwn fel arfer yn cysylltu cwrdd diolchgarwch â llawnder bwydydd a digonedd o ffrwythau, rheidrwydd i'r corff dynol. Cofir am y proffwyd Habacuc yn cynnal cwrdd diolchgarwch heb gynhaef. Wedi colli'r cyfan bron, nid suro a wnaeth. Sylweddolai fod ganddo gynhaef nad oedd yn dibynnu ar y tywydd, nid ar hinsawdd o haul gwresog a chawod o law. Ystyriai ei berthynas â Duw yn gynhaef o gynhaliath gadarn, disyfl a pharhaol. Ebe'r proffwyd:

eto llawenychaf yn yr Arglwydd  
a llawenhaf yn Nuw fy iachawdwr.  
(Habacuc 3.18)

### Dyled

Onid mater o ymdeimlad o ddyled yw diolchgarwch. Mae'n dyled ni'n fawr i'n Duw ac i'n Gwardwr lesu Grist, a dyledus fyddwn am byth. Mawr yw'n dyled i gynifer o bobl, gyda'r pwysicaf ohonynt, i'n rhieni a blynyddoedd ein magwraeth ar aelwyd.

Gan amlaf, mae llawnder y cynhaef yn hollol ddibynnol ar yr hinsawdd naturiol:

Dihidlaist Di gawodydd pur  
I'r blagar wrth ymledu,  
A rhoddaist gynnes haul y p'n'awn  
I'r grawn sydd yn aeddfedu.

Yn y cyd-destun hwn, ystyr llythrennol sydd i'r gair 'hinsawdd'. Ond, gellir ei ddefnyddio yn yr ystyr ffigurol (figurative, metaphorical), hynny yw, ar aelwyd, er enghraifft, yr agwedd feddyliol a moesol sy'n bodoli ac yn sail i'r bywyd teuluol. Yn yr un modd, mewn eglwys ac ysgol, y naws, yr awyrgylch, yr ethos, sy'n cyfrannu mor helaeth i dawelwch meddwl ac ysbryd. Paratoi'r tir, braenaru'r maes i hyrwyddo tyfiant a datblygiad fel y bydd yna gyfle, maes o law, i sylweddoli pa mor anrhaethol bwysig oedd y cynaeafau gwahanol, mawrion hyn, a fu'n gynhaliath ar hyd y daith ac a'n gwnaeth yr hyn ydym. Mewn geiriau syml, dysgu byw'n dda.

Onid y problem fwyaf sydd gennym yw ni ein hunain. Un o'r rhagoriaethau mwyaf yw bod yn anhunanol. Mae cael gair bach â'n hunain yn gwneud byd o les. John Masfield, y bardd a'r nofelydd,

oedd yn sôn am y gŵr ofer hwnnw a gyfaddefodd rywbyrd, 'The harm I did by being me.'

'Y dyn y cefais i fwyaf o drafferth gydag ef', meddai Dwight L. Moody yr efengylwr o America, 'oedd Dwight L. Moody,' (cyfeiriad y Parchg Walter P. John, yn ei gyfrol *Rhwydwaith Duw*).

### Yr aelwyd

Magwyd ni fel plant ar aelwyd Gristnogol, 'nhad yn ysgrifennydd yr eglwys am flynyddoedd ac yn bregethwr lleyg, cartref syml a chyffredin ym mhentref y Rhiwfawr ym mhen Cwm Tawe, pentref a'r Gymraeg yn fyw ar dafod pob un, iaith pob aelwyd, pob siop, ysgol ac eglwys. Pentref yn meddu ar ddiwylliannu gorau'r cyfnod, pryd oedd gwahaniaethu rhwng y da a'r drwg, y moesol a'r anfoesol, yn flaenoriaeth. Cyfnod cychwyn yr ail ryfel byd oedd hwn, cyfnod prinder bwyd a phob peth arall. Eto, cyfnod oedd o hapusrwydd a bodlonrwydd. Ie, yno ar aelwydydd yr hen fro oedd y diwylliannau gorau, y cynaeafau mwyaf a'r diolchiadau didwyllaf.

### Cynaeafau gwahanol

Ni allaf feddwl am unrhyw hanes yn ysgrythurol sy'n rhoi lliw ac ystyr a dadansoddiad o arwyddocâd a dylanwad y cynaeafau hyn nag yn hanes Ruth a'i theyrned glodwiw i'w mam yng nghyfraith, Naomi.

Merch o wlad Moab oedd Ruth ac Orpa ei chwaer yng nghyfraith. (Wele'r cefndir i'r hanesyn yn Llyfr Ruth pennod 1). Wedi colli eu gwŷr, cyngor Naomi i'r ddwy, a hithau'n weddw ei hun, oedd dychwelyd i'w gwlad, sef Moab, dyna a wnaeth Orpa. Ond nid Ruth. Glynodd hi wrth Naomi:

Ond meddai Ruth: 'Paid a'm hannog i'th adael, na throi'n ôl oddi wrthyt, oherwydd [a dyma'r geiriau *allweddol*], I ble

## DATHLU DEUGAIN – parhad

Capel Newydd, Llandeilo yn 2017.

Diolchwyd i Iwan am ei weinidogaeth gydol y blynyddoedd mewn oedfa yn Rhyd-y-main gan Mr Trebor Roberts, ysgrifennydd eglwys Rhyd-y-main a chyflwynwyd rhodd iddo gan Trebor a thusw o flodau i Barbara ei wraig gan Mrs Iola Horan Jones, y Brithdir.

Dymunwn bob bendith i Iwan a'r teulu ar gyrraedd y garreg filltir arbennig hon; diolchwn iddo am ei weinidogaeth ac am ei ysbryd dymunol, gostyngedig.

**Iwan Llewelyn**

(ei olynnydd yn y cylch sy'n diolch i Iwan am y cwbl a gafwyd ganddo ac am roi llwybr cwbl glir, cefnogol a dirwystr i'w olynnydd, fel ag y gwnaeth pob un o'i ragflaenwyr yn y cylch)

bynag yr ei di, fe af finnau; ac ymha le bynnag y byddi di'n aros, fe arhosaf finnau; dy bobl di fydd fy mhobl i, a'th Dduw di, fy Nuw innau. Lle bynnag y byddi di farw, y byddaf finnau farw, ac yno y'm cleddir.'

(Ruth 1. 16–17)

Dyma esiampl odidog o deyrngarwch personol, o ddymuniad i anrhydeddu a'r awydd i dalu ternged. Mewn oes sy'n dibrisio elfennau ac agweddau gwerthfawrocaf bywyd, lle dibrisir hyd yn oed y berthynas agos, naturiol rhwng rhieni a phlant, gwnawn eiriau Ruth yn ganllaw i'n bywyd.

**Morlais Dyfnallt Owen**

(Bydd ail ran yr erthygl hon yn y rhifyn nesaf o'r Tyst)



Nef a daear, tir a môr  
sydd yn datgan mawl ein lôr:  
fynni dithau, f'enaid,  
fod yn y canol heb roi clod?